# Cwricwlwm Clwstwr Bro Edern

Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes

# Ein Gweledigaeth

Bwriad Cwricwlwm Clwstwr Bro Edern yw diwallu anghenion ein disgyblion sy'n dod o gefndiroedd amrywiol mewn dalgylch gymysg yn Nwyrain Caerdydd, prifddinas Cymru. Mae'r Pedwar Diben wrth galon Cwricwlwm Clwstwr Bro Edern. Er mai dibenion hir dymor yw'r rhain, maent angen sylw dyddiol er mwyn cael eu gwireddu.

Wrth i ni arwain disgyblion sy'n falch o'u treftadaeth dinesig yn ein prifddinas, mae Cymreictod, yr iaith Gymraeg a'i datblygiad hanesyddol yn greiddiol i'n gweledigaeth. Mae plethu meysydd ein cwricwlwm yn bwrpasol yn sicrhau bod disgyblion Clwstwr Bro Edern yn elwa o ehangder y cwricwlwm tra'n canolbwyntio ar yr Hyn sy'n Bwysig.

Mae'r bobl a astudir yng Nghwricwlwm Clwstwr Bro Edern yn drawsdoriad amrywiol ac yn cynnwys modelau rôl sy'n ysbrydoliaeth i'r holl ystod o ddisgyblion yn y clwstwr. Wrth gael eu magu mewn dinas aml-ddiwylliannol ble mae cyd-fyw a chyd-dynnu'n rhan allweddol o fywyd beunyddiol, mae ennyn goddefgarwch a pharch yn ein disgyblion yn hanfodol.

Mae annog uchelgais yn golygu datblygu sgiliau a strategaethau cadarn i'w galluogi i wynebu llwyddiant a methiant. Mae dyfalbarhad a gwdnwch yn allweddol fel rhan o'r feddylfryd twf a fegir yn ein disgyblion. Gwybodaeth gadarn sy'n gosod y sylfaen i ddisgyblion yn clwstwr elwa o sgiliau a phrofiadau y gellir eu trosglwyddo i amryw o gyd-destunau heddiw, ac yn y dyfodol.

Mae gan ysgolion y clwstwr y gallu i drawsnewid bywydau ein disgyblion. Dyma ble maen nhw'n ennill y wybodaeth, y sgiliau, a'r profiadau a fydd yn cyfoethogi gweddill eu bywydau. Mae'r gwreiddiau ac adenydd yn logo'r clwstwr yn crisialu hyn.



# Our Vision

The Bro Edern Cluster Curriculum is designed to meet the needs of our pupils, who come from diverse background in the East of Cardiff, the capital city of Wales. The Four Purposes are at the heart of the Bro Edern Cluster Curriculum. Although these are long term purposes, they require daily attention in order to be realised.

The Welsh language and its historical development are central to our vision, as we guide pupils who are proud of our civic heritage in our capital city. Purposeful integration of our curriculum areas ensures that Bro Edern cluster pupils benefit from the breadth of the curriculum while focusing on What Matters.

The people studied in the Bro Edern Cluster Curriculum are a diverse cross section and include role models who are inspirational to the whole range of pupils in the cluster. Growing up in a multicultural city where cohabitation and harmony are a key part of daily life, fostering tolerance and respect in our pupils is essential.

Encouraging ambition in our pupils means developing strong skills and strategies to enable them to face success and failure. Perseverance and resilience are key as part of the growth mindset fostered in our pupils. Sound knowledge that provides the foundation for cluster pupils to benefit from skills and experiences that can be transferred to a variety of contexts today, and in the future.

The cluster schools have the ability to transform the lives of our pupils. This is where they gain the knowledge, skills and experiences that will enrich the rest of their lives. The roots and wings in the cluster logo encapsulates this.



Crynodeb o'r Cwricwlwm

Summary of the Curriculum




# Meithrin
# Nursery

Mae gwaith y Meithrin yn y Clwstwr yn canolbwyntio ar dechnegau caffael iaith wrth i lawer o'n disgyblion ddarganfod yr iaith Gymraeg am y tro cyntaf. Dysgant am eu hunain, eu corff, a'u hemosiynau, lliwiau, gwahanol fwydydd ac anifeiliaid.

The work of the Nursery in the cluster is based on language acquisition techniques as many of our pupils discover the Welsh language for the first time. They learn about themselves, their bodies, emotions, colours, different foods and animals,






# Derbyn
# Reception

Mae gwaith y Derbyn yn y Clwstwr yn seiliedig ar fyd y plentyn.  Bydd y disgyblion yn ymgyfarwyddo gyda'r ysgol ac yn dysgu am eu cartrefi a'u teuluoedd.  Datblygant ddealltwriaeth o'u corff a sut maen nhw'n tyfu ac adegau pwysig yn y bywydau.  Fe'u hanogir i ddarganfod y byd o'u cwmpas ac i ddefnyddio'u dychymyg.

The Cluster's Reception class work is based on the child's world. The pupils will familiarise themselves with the school and will learn about their homes and families. They develop an understanding of their bodies and how they grow and important moments in their lives.  They are encouraged to discover the world around them and to use their imagination.




# Blwyddyn 1
# Year 1

Mae gwaith blwyddyn 1 yn seiliedig ar daith y plant o amgylch eu hardal leol. Mae'n gosod sylfeini cadarn o ran eu dealltwriaeth o'u milltir sgwâr yn nwyrain Caerdydd. Wedi hynny, byddwn yn edrych ar wahanol ffyrdd o gadw'n iach ac yna'n darganfod byd glan y môr.

The year 1 work is based on the children's journey around their local area. It lays solid foundations in terms of their understanding of their square mile in east Cardiff. Following that, we'll look at different ways to stay healthy and then discover the seaside world.

# Blwyddyn 2
# Year 2

Mae gwaith blwyddyn 2 y Clwstwr yn seiliedig ar daith sy'n dechrau gyda'u bywydau eu hunain fel plentyn ym mhrifddinas Caerdydd.  Mae'n esblygu i edrych a chymharu bywydau plant ar draws cyfnodau, edrych ar fywydau plant mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru, yna ymlaen i gymharu bywydau plant ar draws y byd, gan orffen yn dathlu doniau a thalentau plant, a'u medr i newid y byd er gwell.


The Cluster's year 2 work is based on a journey that begins with their own lives as a child of the capital city, Cardiff.  It evolves to look at and compare children's lives across periods, looking at the lives of children in different areas of Wales, then on to compare the lives of children across the world. We finish by celebrating children's gifts and talents, and their ability to change the world for the better.



# Blwyddyn 3
# Year 3

Mae gwaith blwyddyn 3 y clwstwr yn seiliedig ar hanes y Celtiaid a'r Rhufeiniaid. Byddwn yn dysgu am ein gwaddol sydd wedi deillio o'r oesau hyn.  Pwy yw ein cefndryd Celtaidd heddiw? Sut lwyddon ni i oroesi ymosodiadau'r Rhufeiniaid?  Sut mae hyn wedi cyfoethogi ein bywydau?

The year 3 work in the cluster is based on the history of the Celts and the Romans. We will learn about our legacy which has resulted from these ages. Who are our Celtic cousins today? How did we manage to survive the attacks of the Romans? How has this enriched our lives?






# Blwyddyn 4
# Year 4


Mae gwaith blwyddyn 4 y Clwstwr yn seiliedig ar gestyll Cymru: ddoe a heddiw. Pam gawsom nhw eu hadeiladu? A beth yw eu pwrpas heddiw? Pwy oedd yn byw yn y castell a pham oes cymaint o gestyll yng Nghymu? Yn yr ail dymor byddwn yn ystyried pwy wnaeth adeiladu’r cestyll ac edrych yr un pryd ar bobl enwocaf Cymru. Ar ôl dysgu am wahanol fwydydd, mae’r wledd yn galw a bydd disgyblion yn cynllunio gwledd gynhwysol yn y castell gan ystyried anghenion llawer o wahanol bobl.

The Cluster’s year 4 work is based on Welsh castles: past and present. Why were they built? And what is their purpose today? Who lived in the castle and why are there so many castles in Wales? In the second term we will consider who built the castles and look at the most famous people in Wales. After learning about different foods, the feast calls and pupils plan an inclusive feast in the castle taking into account the needs of many different people.

# Blwyddyn 5
# Year 5

Mae gwaith blwyddyn 5 yn y clwstwr yn seiliedig ar y Chwyldro Diwydiannol, a sut mae hyn wedi effeithio ar dirwedd, iaith, gwaith a'r gymdeithas ehangach.  Gyda Streic y Glowyr fel sbardun , byddwn yn edrych ar bobl sydd wedi codi'u llais dros anghyfiawnder.  Erbyn diwedd y flwyddyn byddwn wedi edrych ar ddatblygiad addysg dros y cyfnod hwn gan arwain at dwf Addysg Gymraeg yn y brifddinas.

Year 5's work in the cluster is based on the Industrial Revolution a how this has affected the landscape, work and the wider society. With the Miners' Strike as a trigger, we will look at people who have raised their voices for injustice. By the end of the year we will have looked at the development of education over this period leading to the growth of Welsh Education in the capital city.






# Blwyddyn 6
# Year 6

Mae gwaith Blwyddyn 6 yn y Clwstwr yn seiliedig ar y thema Bae Caerdydd ac yn cwmpasu gwahanol agweddau ar fywyd yn y Bae a sut mae hyn wedi effeithio ar Gaerdydd, Cymru a'r byd.

Year 6 work in the cluster is based on the theme of Cardiff Bay and covers different aspects of life in the Bay, and how this has affected Cardiff, Wales and the world.

Fel clwstwr rydym wedi cyd-gynllunio cwricwlwm eang a chytbwys sydd a datblygu'r pedwar diben ynghyd a gwybodaeth wrth wraidd iddo. Mae'r cwricwlwm yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau ac yn cynnig cyfle i bob dysgwr wneud cynnydd priodol yn unol â'i gallu. Mae'r cwricwlwm wedi ei lunio i roi ystyriaeth lawn i bob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad ac yn cwmpasu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Mae cynllunio'r cwricwlwm yn ymestyn tu hwnt i'r ystafell ddosbarth er mwyn darparu cyfleoedd gwerthfawr i roi ystod o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau ar draws nifer o gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Wrth wireddu'r cwricwlwm byddwn yn hefyd yn meithrin dealltwriaeth ein dysgwyr o yrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith ynghyd ag addysg hawliau dynol, amrywiaeth a chynwysoldeb. Rydym yn sicrhau bod ein cynlluniau gwaith yn rhoi ystyriaeth lawn i elfennau mandadol y cwricwlwm, sef crefydd, gwerthoedd a moeseg, addysg cydberthynas a rhywioldeb, Cymraeg a Saesneg.

Rydym yn cydnabod fel clwstwr mai diben asesu yw cefnogi pob dysgwr i symud ymlaen yn briodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny. Bydd pob ysgol yn ein clwstwr yn dilyn eu canllawiau asesu sydd â ffocws ar gefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, cipio a myfyriol ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser ynghyd a deall cynnydd grwpiau o ddysgwyr sy'n caniatáu i ni fyfyrio yn barhaus.

Fe fyddwn yn myfyrio a mireinio'r cwricwlwm yn gyson gyda gweithgaredd llais y dysgwyr yn chwarae rhan allweddol yn y prosesau hunan arfarnu ar lefel adrannol ac ysgol gyfan. Yn ystod tymor yr Hydref fe fyddwn yn cynnig noson gwricwlaidd i rieni a rhanddeiliaid ymuno a ni er mwyn clywed am y datblygiadau diweddaraf a chynnig cyfle iddynt ofyn unrhyw gwestiynau neu gynnig sylwadau.

YSGOL PEN Y PÎL

YSGOL GYMRAEG PEN-Y-GROES

Ysgol Glan Morfa

BRO EDERN

YSGOL GYMRAEG BRO EIRWG

Ysgol Y Berllan Deg

As a Bro Edern cluster we have co-planned a broad and balanced curriculum which develops the four purposes together with knowledge at the heart of it. The curriculum is suitable for learners of different ages, abilities and talents and offers each learner the opportunity to make appropriate progress in accordance with their ability. The curriculum has been drawn up to give full consideration to each of the six areas of learning and experience and covers the statements of what matters.

Curriculum planning extends beyond the classroom in order to provide valuable opportunities to impart a range of experiences, knowledge and skills across a number of local, national and international contexts. When implementing the curriculum we will also foster our learners' understanding of careers and experiences linked to the world of work together with human rights education, diversity and inclusiveness. We ensure that our work plans give full consideration to the mandated elements of the curriculum, namely religion, values and ethics, relationship and sexuality education, Welsh and English.

We recognise as a cluster that the purpose of assessment is to support all learners to progress appropriately, ensuring that they are supported and challenged accordingly. All schools in our cluster will follow their assessment guidelines which have a focus on continuously supporting individual learners, capturing and reflecting on the progress of individual learners over time together with understanding the progress of groups of learners which allows us to reflect continuously.

We will constantly reflect and refine the curriculum with learners' voice playing a key role in the self-evaluation processes at department and whole school level. During the Autumn term we will offer a curricular evening for parents and stakeholders to join us in order to hear about the latest developments and offer them the opportunity to ask any questions or offer comments.